OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2356

## Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001

### Teitl, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio)(Cymru) 2001, byddant yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2001

### Diwygio Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998

**2.**—(1) Caiff Rheoliadau Tatws sy'n deillio o'r Aifft 1998(**1**) eu diwygio fel y maent yn gymwys i Gymru yn unol â pharagraffau (2) a (3) isod.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn lle'r diffiniad o "the Decision" rhoddir—

""the Decision" means Commission Decision 96/301/EC authorising Member States temporarily to take additional measures against the dissemination of *Pseudomanas solanacearum* (Smith) Smith as regards Egypt(**2**)) as amended by the instruments listed in the Schedule to these Regulations;".

(2) Ar ôl rheoliad 6, mewnosodir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

26 Mehefin 2001

(**1**) O.S. 1998/201, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/3167 ac O.S. 2000/350 (Cy.8).
(**2**) OJ Rhif L115, 9.5.96, t.47.
(**3**) 1998 p.38.